



Ai profiad gwaith yw hwn? A yw'n cyfrif fel gwirfoddoli? Yr un peth yw'r ddau... ia ddim? Wel, ddim yn hollol!

Gall ymgymryd â phrofiad ymarferol gynnig cipolwg defnyddiol i fyfyrwyr sy'n ystyried gweithio o fewn yr amgylchedd hwnnw yn y dyfodol.

Nod y daflen wybodaeth hon yw helpu myfyrwyr neu unigolion sy'n gweithio o fewn addysg i ddeall y gwahaniaethau pwysig rhwng lleoliadau profiad gwaith a gwirfoddoli, y mae gan y ddau eu rôl i'w chwarae wrth ddatblygu sgiliau a pharodrwydd i weithio. Mae'n egluro'r gwahaniaethau rhwng gwirfoddoli (yn rhydd, o ddewis) a lleoliad profiad gwaith (yn aml wedi'i gysylltu â chysiau addysgol).



'Dyweddodd fy Nhiwtor fy mod angen ymgymryd â 'lleoliad gwirfoddoli'. Rwyf am gysylltu â fy Nghanolfan Wirfoddoli leol'

Mae 'lleoliad gwirfoddoli' yn gamenw - mae 'gwirfoddoli' a 'lleoliadau profiad gwaith' yn ddau beth hollol wahanol i sefydliadau cymunedol a gwirfoddol'.





Dyma rai gwahaniaethau allweddol...



Lleoliadau profiad gwaith i fyfyrwyr

Beth yw lleoliad profiad gwaith?

Mae lleoliad profiad gwaith yn cynnig y cyfle i'r myfyriwr (sydd fel arfer yn ymgymryd â chwrs iechyd a gofal cymdeithasol) i dreulio cyfnod o amser penodol gyda sefydliad er mwyn ennill profiad a chyflawni gofynion ei gwrs.

Efallai bydd angen iddo gwblhau gwiriad Manwl gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS); mae angen gwirio hyn cyn ymgymryd â'r lleoliad profiad gwaith.

Mae angen i fyfyrwr ar leoliad profiad gwaith fod â'r un yswiriant ag aelod o staff. Mae hyn tua phymtheg gwaith yn fwy drud nag ar gyfer gwirfoddolwr.

Byddai contract lleoliad profiad gwaith yn nodi pa brofiad fydd yn cael ei gynnig i'r myfyriwr (e.e. cysgodi ac amcanion/cyfleoedd dysgu penodol).



Cyfle i wirfoddoli

Beth yw gwirfoddoli?

Mae Polisi Gwirfoddoli Llywodraeth Cymru (2015) yn diffinio gwirfoddoli fel gweithgarwch:

- sy'n cael ei gyflawni yn rhydd, o ddewis
- sy'n cael ei gyflawni er budd y cyhoedd/cymuned
- nad yw'n cael ei gyflawni er mantais ariannol



Gall gwirfoddoli fod yn ffurfiol neu'n anffurfiol. Mae myfyrwyr sy'n dymuno ennill profiad/datblygu sgiliau yn fwy tebygol o ddewis rôl wirfoddol ffurfiol. Mae'r wybodaeth ganlynol yn cyfeirio at rôl wirfoddol ffurfiol.

Mae yswiriant ar gyfer gwirfoddolwr yn rhatach i sefydliad. Nid yw'n cwmpasu'r holl weithgareddau y mae yswiriant staff yn ei gwmpasu.

Nid oes angen contract ffurfiol ar gyfer gwirfoddoli. Mae'n debycach i lwybr recriwtio fel cyfweiliad, hyfforddiant cynefino, etc. Efallai bydd rhai elusennau'n gofyn am gytundeb gwirfoddol, ond nid yw'r berthynas rhwng gwirfoddolwr a sefydliad yn gytundebol.







 Lleoliadau profiad gwaith i fyfyrwyr	 Cyfle i wirfoddoli
<p>Dylai'r myfyriwr a'r hwylusydd (aelod dynodedig o staff o fewn y sefydliad lletya) nodi anghenion dysgu lleoliad profiad gwaith, a dylai'r asesydd allanol egluro sut fydd y rhain yn cael eu bodloni.</p>	<p>Mae'r gwirfoddolwr yn cael hyfforddiant penodol a nodir er mwyn ymgymryd â'r rôl, fel y'i diffinnir yn y swydd ddisgrifiad (e.e. diogelu, gosod ffiniau).</p>
<p>Disgwyliadau o ran cyfleoedd y lleoliad profiad gwaith (e.e. agweddau ymarferol, fel nifer yr oriau).</p> <p>Mae disgwyl i fyfyrwyr ymgymryd â dysgu ymarferol yn ystod oriau busnes arferol y sefydliad.</p>	<p>Nid oes ymrwymiad ffurfiol. Mae'r sefydliad fel arfer yn rhoi syniad o'r lefel o gyfranogiad gwirfoddol dymunol (e.e. 2-3 awr yr wythnos).</p> <p>Ar y cam hwn, efallai bydd gofyn i'r gwirfoddolwr gwblhau gwiriad DBS.</p>
<p>Mae angen rhoi trefniadau ffurfiol ar waith ar gyfer cynefino, gan gynnwys hyfforddiant lechyd a Diogelwch, Polisiâu a Gweithdrefnau sefydliadol, etc. ar gyfer gwaith papur lleoliad profiad gwaith.</p>	<p>Dylid rhoi gwybod i wirfoddolwyr am sut i ddiogelu eu hunain wrth wirfoddoli (e.e. peidio â rhannu manylion personol â'r unigolion maent yn eu cefnogi. Rhaid i reolwyr gwirfoddoli hefyd ymgymryd ag asesiadau risg).</p>
<p>Dylid nodi unrhyw anghenion/gofynion ychwanegol, cytuno arnynt, a'u cofnodi cyn dechrau ar y profiad gwaith.</p> <p>Dylai'r myfyriwr, yr hwylusydd (aelod dynodedig o staff o fewn y sefydliad lletya) a'r asesydd allanol fod yn ymwybodol o'r rhain a chytuno ar y trefniadau (e.e. addasiadau rhesymol i fyfyrwyr anabl neu unigolion sydd â chyfrifoldebau gofalu).</p>	<p>Yn ôl arfer gorau, dylai cyfleoedd gwirfoddoli gychwyn trafodaethau ynghylch unrhyw anghenion/gofynion ychwanegol.</p> <p>Mae cymorth yn galluogi'r gwirfoddolwr i ymgymryd â gwirfoddoli yn y ffordd sydd fwyaf addas iddo. Fodd bynnag, gall gwirfoddolwyr posibl drafod eu hanghenion cymorth os nad ydynt wedi'u crybwyll eisoes.</p>





 Lleoliadau profiad gwaith i fyfyrwyr	 Cyfle i wirfoddoli
<p>Mae'r myfyriwr, hwylusydd (aelod dynodedig o staff o fewn y sefydliad lletya) ac asesydd allanol yn cytuno â disgwyliadau'r lleoliad profiad gwaith.</p>	<p>Dylid trefnu gwiriadau goruchwylio rheolaidd er mwyn sicrhau bod y gwirfoddolwr yn fodlon yn ei rôl. Gallai'r rhain fod yn ffurfiol neu'n anffurfiol, a thrwy sesiynau un i un neu sesiynau grŵp.</p>
<p>Bydd angen i hwylusydd (aelod dynodedig o staff o fewn y sefydliad lletya) ac asesydd allanol gyfathrebu â'i gilydd er mwyn ysgrifennu adroddiad ar berfformiad y myfyriwr yn ystod ei leoliad.</p>	<p>Fel arfer, gall y sefydliad roi geirda i wirfoddolwr, yn nodi natur y rôl, nifer yr oriau, y sgiliau a ddangosir, etc.</p>





Yn gryno, mae lleoliad, sy'n ofynnol fel rhan o gwrs addysgol yn gosod y profiad hwn y tu allan i ddiffiniad gwirfoddoli, oherwydd NID YW'N cael ei wneud o ddewis.

Bydd lleoliad yn ei wneud yn ofynnol i sefydliad asesu eich amser gyda nhw a chwblhau gwaith papur sy'n berthnasol i'ch cwrs. Bydd hyn yn ffordd wahanol o'ch rheoli o gymharu â'u sylfaen wirfoddolwyr ac mae'r ddau brofiad yn cyflwyno costau i sefydliad, ond efallai y bydd rhai costau'n ddrutach ar gyfer lleoliad profiad gwaith, e.e. yswiriant. Dylech siarad â'ch tiwtor cwrs am sefydliadau y mae wedi datblygu perthynas â nhw sydd wedi cefnogi myfyrwyr blaenorol - nid yw'n ofynnol i chi drefnu eich lleoliad eich hun fel arfer. Mae rhai sefydliadau wedi datblygu perthnasoedd â sefydliadau addysgol ac wedi datblygu arbenigedd wrth gefnogi myfyrwyr.

Fodd bynnag, mae gwirfoddoli hefyd yn ffordd wych o gefnogi eich dysg ac ennill profiad ychwanegol, a fyddai'r un mor ddefnyddiol i chi ag i'r sefydliad.



Mae gan y rhan fwyaf o sefydliadau sy'n cynnig cyfleoedd gwirfoddoli o safon staff rheoli gwirfoddol ymroddedig eu hunain, sydd wedi datblygu sgiliau yn y maes hwn drwy hyfforddiant a phrofiad. Byddant yn gallu eich helpu gyda'ch recriwtio, eich cynefino a'ch cefnogi i fwynhau'r rôl, a byddant fel arfer yn ad-dalu eich treuliau. Gall gwirfoddoli arwain at ddatblygu sgiliau arbennig ac ennill geirada er mwyn helpu i wthio eich gyrfa ymhellach.

Cysylltwch â'ch Cyngor Gwasanaeth Gwirfoddol lleol, sydd â thimau canolfan wirfoddol a all gynnig rhagor o help i chi:

Cyngor Gwasanaeth
Gwirfoddol Abertawe
01792 544000
www.scvs.org.uk

Cyngor Gwasanaeth Gwirfoddol
Castell-nedd Port Talbot
01639 631246
www.nptcvs.wales



Mae **Cymorth Gwirfoddoli Gorllewin Morgannwg** yn brosiect amlasiantaethol sy'n creu adnoddau a rennir i ddatblygu gwybodaeth, rheolaeth a chydlyniad gwirfoddolwyr a sefydliadau sy'n cynnwys gwirfoddolwyr ledled ardaloedd Abertawe a Chastell-nedd Port Talbot. Mae wedi'i ariannu drwy Gronfa Adfer Gwirfoddoli Llywodraeth Cymru.

Partneriaid y prosiect yw:

Cyngor Castell-nedd Port Talbot, Cyngor Gwasanaeth Gwirfoddol Castell-nedd Port Talbot, Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe, Cyngor Abertawe, Cyngor Gwasanaeth Gwirfoddol Abertawe a Phartneriaeth Ranbarthol Gorllewin Morgannwg.

Am ragor o wybodaeth, ewch i:
www.westglamorgan.org.uk/wgvs

